**Adroddiad i'r:** **Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol**

**Dyddiad y Cyfarfod:** **15 Mehefin 2016**

**Aelod/Swyddog Arweiniol: Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill / Richard Weigh**

**Awdur yr Adroddiad:** **Richard Weigh, Pennaeth Cyllid**

**Teitl:** **Diweddaru Rheoliadau Ariannol y Cyngor**

---

## 1. Am beth mae’r adroddiad yn sôn?

Dylai Rheoliadau Ariannol y Cyngor gael eu hadolygu a'u diweddaru o bryd i'w gilydd ac mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno diwygiadau arfaethedig i'w hystyried a’u hargymell i'r cyngor llawn.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio’r adroddiad hwn?

Amlinellu’r ffactorau ar gyfer gwneud diwygiadau a chyflwyno’r meysydd allweddol o newid.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Ystyried yr adroddiad a'r newidiadau arfaethedig i'r Rheoliadau Ariannol ac argymell i'r cyngor llawn.

## 4. Manylion yr Adroddiad

Mae Rheoliadau Ariannol yn rhan o gyfansoddiad y cyngor ac yn darparu fframwaith ar gyfer rheoli materion ariannol y cyngor ac maent yn berthnasol i bob swyddog ac aelod o'r cyngor a'r bobl sy'n gweithredu ar ei ran.

Mae Rheoliadau Ariannol yn nodi nifer o egwyddorion a rheolau sy'n helpu i sicrhau bod y cyngor yn gweithredu gyda system gadarn o reolaeth fewnol a llywodraethu effeithiol. Mae'r egwyddorion a rheolau hyn yn tueddu i fod yn gyson dros gyfnod o amser, ond gall y drefniadaeth a’r dull o gymhwyso newid wrth i'r cyngor ad-drefnu, wrth i dechnoleg newid ac wrth i statud gael ei diweddaru. Gall rheoliadau gael eu cyfyngu i set o reolau â gweithdrefnau ariannol ar wahân a gynhelir ar wahân. Mae Rheoliadau Ariannol y Cyngor yn cynnwys cymhwyso gweithdrefnol yn ogystal â gosod allan y rheolau, sy'n gwneud y ddogfen yn faith o ran hyd, ond yn seiliedig ar y model a argymhellir gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth.

Mae Atodiad 1 yn nodi rhai o'r prif newidiadau i'r Rheoliadau. Yn gryno mae'r rhain yn cynnwys y themâu canlynol:

- Diweddaru i adlewyrchu’r strwythur rheoli diweddaraf a therminoleg

- Tynnu rheoliadau diangen
- Diweddaru gweithdrefnau i adlewyrchu'r newidiadau technolegol diweddaraf
- Nodi newidiadau i neu ddeddfwriaeth newydd, fel Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae hwn yn adolygiad sylweddol o'r Rheoliadau. Cynigir yn y dyfodol, bod y Rheoliadau yn cael eu hadolygu yn adrannau bob blwyddyn i wneud y broses yn fwy hylaw. Yn amlwg, os oes unrhyw newidiadau penodol sylweddol sydd eu hangen cyn y cyfnod adolygu, bydd y rhain yn cael eu gweithredu.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae Rheoliadau Ariannol yn sail i reolaeth ariannol a fframwaith llywodraethu y cyngor ac felly yn effeithio ar y ffordd y mae blaenoriaethau yn cael eu darparu ac y cyfrifir amdanynt.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Mae'r adolygiad wedi ei gynnal yn fewnol heb unrhyw gost ychwanegol.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad?**

Ddim yn berthnasol i'r adroddiad hwn.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

Ymgynghorwyd gyda rheolwyr Cyllid ac Archwilio Mewnol. Bydd Penaethiaid Gwasanaeth yn ymgynghori ar y newidiadau cyn eu mabwysiadu gan y Cyngor llawn.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae Rheoliadau Ariannol yn sail i'r fframwaith rheolaeth ariannol. Mae'r egwyddorion a'r rheolaethau sylfaenol yn tueddu i aros yn gyson dros amser, ond mae Rheoliadau'r cyngor yn cynnwys gweithdrefnau ariannol sy'n fwy tueddol o newid wrth i strwythurau, technoleg a deddfwriaeth newid. Mae'r diweddariadau diweddaraf yn adlewyrchu newidiadau yn y meysydd hyn dros y blynyddoedd diwethaf ac arferion cyfredol ar draws y cyngor felly ni ddylai greu beichiau gweinyddol newydd neu newidiadau o fewn gwasanaethau.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Mae diweddaru rheoliadau ariannol yn sicrhau bod rheolaethau a gweithdrefnau yn ystyried risg newydd neu risg sy'n newid wrth i systemau, technoleg, strwythurau a deddfwriaeth newid.

**11. Pŵer i wneud Penderfyniad**

Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol (1972);

Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989, Rheoliadau Cyfrifon ac Archwiliadau 2005 a Deddf Llywodraeth Leol 2003.

**Atodiad 1 Rheoliadau Ariannol - Crynodeb o'r Newidiadau Allweddol**

| Maes | Newidiadau Allweddol |
|---|---|
| Cyffredinol | Wedi ei ddiweddaru i adlewyrchu'r strwythurau, deddfwriaeth a theitlau statudol diweddaraf. Er enghraifft, mae hyn yn dileu cyfeiriadau at gyfarwyddiaethau ac yn mewnosod cyfeiriad at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. |
| 2. Polisïau Cyfrifo | Wedi newid i adlewyrchu bod y polisïau cyfrifo wedi'u nodi yn fanwl yn y Datganiad Cyfrifon a ragnodir gan reoliadau cyfrifo - yn hytrach na rhestru'r polisïau ar wahân yn y Rheoliadau Ariannol. |
| 4. Cynllunio Ariannol | Roedd yr adran hon yn canolbwyntio yn flaenorol ar ofynion yr agenda 'Gwerth Gorau' ac mae wedi ei diweddaru i ganolbwyntio mwy ar gynllunio ariannol a chyllidebol. |
| 5. Monitro a Rheoli Cyllideb | Egwyddorion heb eu newid ond wedi eu cryfhau â pharagraffau newydd yn cwmpasu Cynllunio Ariannol Tymor Canolig. |
| 6. Trosglwyddiad Ariannol a Balansau diwedd Blwyddyn | Cymeradwyaethau trosglwyddiadau ariannol wedi eu diweddaru i adlewyrchu'r strwythurau diweddaraf. Adran balansau diwedd blwyddyn wedi symud i'r adran nesaf. |
| 7. Cronfeydd Wrth Gefn, Darpariaethau a Balansau | Mae'n egluro prosesau ar gyfer creu a defnyddio cronfeydd wrth gefn a darpariaethau ac yn egluro'r prosesau presennol ar gyfer defnyddio balansau yn ystod y flwyddyn mewn gwasanaethau. |
| 8. Rhaglen Gyfalaf a Gwariant | Wedi ei ddiweddaru i adlewyrchu trefniadau cymeradwyo ac adrodd cyfredol (h.y. cyfraniad y Grŵp Buddsoddi Strategol yn y broses awdurdodi). Hefyd yn cyfeirio at asesiad o gynaliadwyedd tymor hir yn unol â Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. |

| | |
|---|---|
| 9. Rheoli Risg | Dileu’r adran – wedi ei chynnwys o fewn yr adran rheolaeth fewnol. |
| 12.  Gofynion Archwilio | Diweddaru gofynion Archwilio Mewnol a dileu adran Archwilio Allanol. Mae gofynion archwilio allanol yn cael eu cwmpasu gan statud ac felly nid oes angen iddynt gael eu gosod allan yn benodol yn y Rheoliadau Ariannol. |
| 13. Atal Twyll a Llygredd | Diweddarwyd gyda dolen i Ganllawiau Gwyngalchu Arian. |
| 14. Asedau | Yn bennaf heb eu newid. Gofynion o ran rhestrau eiddo wedi eu diweddaru i adlewyrchu arfer cyfredol. Gweithdrefnau storfeydd wedi eu diweddaru i adlewyrchu symud o systemau â llaw - tra'n cadw uniondeb y rheolaethau mewnol.<br><br>Nodyn ynghylch hawliau eiddo deallusol wedi’i ychwanegu. |
| 15. Rheoli Trysorlys | Wedi ei ddiweddaru i adlewyrchu deddfwriaeth a rheoliadau diweddaraf. Mae'r adran hon yn cael ei chynnwys yn llawer mwy manwl yn y Strategaeth Rheoli Trysorlys - bydd dolen i'r ddogfen yn cael ei darparu. |
| 17. Staffio | Adran wedi ei dileu. Mae hyn yn dyddio o gyfnod cyn y systemau presennol sydd yn eu lle (cronfa ddata staffio ganolog, ac ati). Mae'r rheolaethau ariannol allweddol ynghylch staffio o fewn yr adran Cyflogau a Phensiynau. |
| 19. Incwm | Wedi ei ddiweddaru i ofyn am adolygiad rheolaidd o ffioedd a thaliadau, i’w ystyried fel rhan o broses y gyllideb. |
| 20. Archebu a Thalu am Nwyddau a Gwasanaethau | Mae newidiadau i'r adran hon yn adlewyrchu newidiadau technolegol diweddaraf neu newidiadau systemau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfeiriadau at gardiau prynu, archebu electronig a thalu a newidiadau gweithdrefnol wedi hynny. |
| 21. Cyflogau a Phensiynau | Newidiadau i adlewyrchu technoleg. Cryfhau proses awdurdodi ar gyfer taliadau terfynu. |
| 22. Teithio, Cynhaliaeth a Lwfansau | Wedi ei ddiweddaru i ganiatáu ar gyfer hawliadau electronig. |
| 23. Trethiant | Wedi ei ddiweddaru i adlewyrchu gweithdrefnau HMRC diweddaraf. |
| 27. Partneriaethau | Mae'r hen adran ‘Partneriaethau’ wedi ei diweddaru a'i hehangu i gynnwys modelau |

| | |
|---|---|
| a Modelau Darparu Gwasanaeth Amgen | darparu gwasanaeth amgen. Mae'r Fframwaith Partneriaeth yn awr yn cael ei ddarparu fel dolen, gan y bydd y gweithdrefnau ar gyfer asesu opsiynau modelau darparu gwasanaeth amgen a'r fframwaith llywodraethu i'w dilyn wedi hynny. Mae'r Fframwaith ar gyfer Darparu Gwasanaethau gyda Darparwyr Gwasanaeth a ariennir gan y Cyngor hefyd yn awr wedi ei atodi fel dogfen gysylltiedig. |